Adnoddau dysgu digidol

Owain Dafydd: Swyddog Addysg, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw un o lyfrgelloedd mawr y byd. Yn ein hadeilad yn Aberystwyth mae mynydd o wybodaeth am Gymru a'r byd – miliynau o lyfrau ar bob pwnc, miloedd o lawysgrifau ac archifau, mapiau, lluniau a ffotograffau, ffilmiau, cerddoriaeth a gwybodaeth electronig. Mae casgliadau'r Llyfrgell yn eang ac amrywiol ac mae'r Gwasanaeth Addysg yn medru hwyluso mynediad at y casgliadau hyn i ddisgyblion, athrawon, myfyrwyr, darlithwyr a dysgwyr gydol oes.



Bydd y gweithdy yn amlinellu'r camau rydym wedi cymryd wrth greu adnoddau dysgu digidol. Bwriad y gweithdy yw rhannu profiad o beth sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol a pha raglenni defnyddiol sydd ar gael i athrawon ac unigolion sydd wrthi'n cynhyrchu adnoddau dysgu.

Bydd y gweithdy yn dangos sut gallai sefydliadau neu unigolion gynorthwyo athrawon i gyflawni anghenion y cwricwlwm yng Nghymru, a darparu cynnwys sydd yn ddiddorol a defnyddiol. Mae holl adnoddau dysgu digidol y Llyfrgell Genedlaethol ar gael am ddim drwy Hwb.